Dyfed-Powys

Heddlu Adroddiad Blynyddol 06/07

Adroddiad Blynyddol y Prif Gwnstabl Dros Dro 2006-07

Rhagair y Prif Gwnstabl Dros Dro

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fy adroddiad blynyddol i chi ar gyfer blwyddyn ariannol 2006/07, cyfnod o newid i'r tirlun plismona ar draws y wlad. Wrth i'r cynigion i orfodi'r pedwar heddlu yng Nghymru i uno, gael eu diddymu, gwelwyd dyfodiad cyfnod newydd o gydweithio a chydweithredu er mwyn gwella safonau ar draws y wlad.

Mae strwythur Awdurdodau Heddlu Cymru yn goruchwylio'r broses hon, sy'n dwyn ynghyd aelodau o'r pedwar awdurdod yng Nghymru i gynnig goruchwyliaeth strategol er mwyn darparu gwasanaeth plismona. O fewn y strwythur hwn, mae'n Heddlu wedi ymgymryd â rôl arweiniol mewn tîm prosiect sy'n datblygu gwaith ar y cyd ar draws meysydd gweithrediadol a meysydd anweithrediadol amrywiol.

Rhaid i'r ymdrech i bontio'r bwlch yn yr hyn a elwir yn 'wasanaethau diogelu', a nodwyd gan Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi yn ôl yn 2005, fod yn un o'r prif nodau. Fel rhan o'r broses hon, mae'r tîm prosiect Cymreig wedi sicrhau cyfanswm ariannol cyfyngedig gan y Swyddfa Gartref i annog rhagor o gydweithio ym maes diogelu'r cyhoedd a throseddau difrifol a throseddau ar raddfa fawr. Bydd y prosiectau hyn, a labelwyd yn 'safleoedd arddangos', yn allweddol i'r broses o ddarparu rhai o'n gwasanaethau pwysicaf yn ystod y blynyddoedd i ddod.

Yn lleol, mae'r gwaith wedi parhau yn ôl yr arfer a diolch i waith caled staff a chymorth cymunedau lleol, llwyddwyd i gynnal y safonau perfformio uchel a sicrhawyd yn flaenorol. Gwelwyd cyfanswm y troseddau a gofnodwyd yn gostwng 0.4%, gan ychwanegu at ostyngiad o 7% a sicrhawyd yn ystod 2005/06 a gwelwyd y raddfa ddatrys sancsiwn ar gyfer pob trosedd yn codi o 40% i 42%, sef y lefel berfformio uchaf ar draws Cymru a Lloegr.

Yn ystod 2006/07, wynebwyd nifer o sialensiau eraill ac mae'n falch gennyf ddweud bod yr Heddlu hwn wedi ymateb iddynt yn rhyfeddol. Roedd y rhain yn cynnwys Ymgyrch Oystercatcher, sef yr ymarfer gwrthderfysgaeth mwyaf a gynhaliwyd erioed yng Nghymru, ac mae hwn yn rhywbeth y byddaf yn cyfeirio ato yn fanylach yn nes ymlaen yn fy adroddiad.

Ond prif ddiben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i chi am y gwasanaethau plismona pwysicaf i chi yn eich cymuned leol. Rhan allweddol o hyn yw darparu Plismona Bro, rhaglen sy'n cael ei chyflwyno yn genedlaethol gan y llywodraeth. O ganlyniad i ostyngiad sylweddol yng nghyfanswm yr adnoddau a ddarparwyd yn ganolog ar gyfer y fenter hon, bu'n rhaid i ni ailystyried ymddangosiad a theimlad y gwasanaeth yn gyfan gwbl ar draws ein heddlu. Rydym yn parhau i ymrwymo, fodd bynnag, i'r ethos sylfaenol sy'n sail i Blismona Bro ac yn hyn o beth, ein nod fydd darparu gwasanaeth plismona amlwg, ymatebol a chysurlon i chi, ble bynnag yr ydych yn byw yn ardal Dyfed-Powys.

Mae'r sialensiau yr ydym yn eu hwynebu yn rhai sylweddol. Rydym yn wynebu dyfodol sy'n fwy cymhleth fyth gyda dyfodiad mathau newydd o droseddoldeb; bydd setliadau ariannol gan y llywodraeth ganolog yn gofyn am fwy o flaenoriaethu a defnydd mwy synhwyrol o'n hadnoddau ac fel y nodais yn barod, rhaid i ni barhau i ddatblygu gallu gwell ar draws Cymru o ran gwasanaethau diogelu.

Er hyn, byddaf i a bydd fy Awdurdod Heddlu yn parhau i ganolbwyntio ar ddarparu arddull plismona wedi'i seilio ar gymunedau, ac sy'n adlewyrchu anghenion penodol cymunedau lleol ar draws ardal Dyfed-Powys. Yn unol â'n gweledigaeth, rydym wedi ymrwymo i 'Diogelu ein Cymuned' a sicrhau bod y rhan arbennig hon o'r byd yn parhau i fod y man mwyaf diogel yn y wlad i fyw ynddo, i weithio ynddo, i ymweld ag ef ac i fuddsoddi ynddo.

Andrew R. Edwards
Prif Gwnstabl Dros Dro

Perfformiad Cyffredinol yn 2006/07

Fel y nodais yn fy nghyflwyniad i'r adroddiad hwn, mae perfformiad cyffredinol Heddlu Dyfed-Powys wedi parhau i fod yn gadarn, gyda'r lefelau troseddu cyffredinol yn gostwng ychydig a'r graddfeydd datrys yn codi dros y flwyddyn ddiwethaf.

Yn ystod y 12 mis hwnnw, gwelwyd nifer y byrgleriaethau domestig yn gostwng 4% a nifer y troseddau treisgar yn gostwng 1%. Gwnaethpwyd gwaith sylweddol i ddelio gyda phob math o droseddau treisgar, o gofio bod hyn wedi cael ei amlygu fel blaenoriaeth i'r Heddlu gan yr Awdurdod Heddlu ar gyfer 2007/08. Rydw i'n gobeithio adrodd am rai canlyniadau cadarnhaol pellach i'r ymdrechion hyn yn fy adroddiad ar gyfer 2007/08.

Mae'ch lefelau bodlonrwydd gyda'r gwasanaethau a ddarparwn wedi parhau i aros yn gymharol gyson yn ystod y flwyddyn, gyda gwelliant amlwg o ran nifer y bobl sy'n fodlon gyda'r ffordd y mae fy heddweision wedi rhoi gwybodaeth iddynt ynghylch unrhyw gynnydd gyda'u hachos. Mae hwn yn faes lle y bu'r perfformiad yn wan ar lefel genedlaethol ac, o ganlyniad, penderfynodd y Swyddfa Diwygio Cyfiawnder Troseddol ymweld â ni i amlygu rhai o'r ymarferion yr ydym yn eu gweithredu er mwyn cynorthwyo heddluoedd eraill.

Un o'r meysydd pwysicaf i ni fel heddlu yw ein perfformiad yn y meysydd bwysicaf i chi. O ganlyniad i waith ymgynghori eang, aeth yr Awdurdod ati i osod blaenoriaethau ar gyfer yr Heddlu yn 2006/07 a oedd yn ymwneud â chyffuriau dosbarth A, troseddau treisgar ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'n falch gennyf adrodd, o ystyried ystod o fesurau perfformio yn y meysydd hyn, bod y perfformiad wedi rhagori'n fawr ar y targedau llym a osodwyd.

Mae'r ffordd yr ydym yn manteisio ar ein hadnoddau ac yn gwneud y defnydd gorau ohonynt, yn ganolog i wasanaeth plismona effeithiol. Yn hyn o beth, mae'n hynod o bleserus gweld bod lefelau salwch heddweision wedi gostwng flwyddyn ar ôl blwyddyn a bod yr heddlu wedi llwyddo i fodloni ei dargedau effeithlonrwydd yn gyffyrddus.

Yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, bydd modd i chi weld dros eich hun y data perfformiad y mae angen i ni adrodd arno i'r llywodraeth, gan gymharu'r perfformiad dros y ddwy flynedd ddiwethaf a'i gymharu gyda pherfformiad grŵp yr heddluoedd sydd fwyaf tebyg i ni ym marn Arolygiaeth Ei Mawrhydi. Caiff y dangosyddion eu grwpio dan themâu amrywiol, felly byddaf yn rhoi adroddiad ychydig yn fanylach i chi nawr am ein perfformiad dan bob thema.

Delio â Throseddu

Er bod pobl yn ardal Dyfed-Powys yn parhau i feddwl eu bod lawer yn fwy tebygol o ddioddef troseddau nag y maent mewn gwirionedd, mae canlyniadau'r Arolwg Troseddu Prydeinig diweddaraf yn galonogol. Yr Arolwg yw hoff ffordd y llywodraeth o fesur troseddoldeb yn y wlad hon ac fe'i ddefnyddir i gyd-fynd â'n hystadegau ni ynghylch troseddau a gofnodwyd.

Gwelwyd cyfran y bobl a oedd yn teimlo'u bod mewn perygl o ddioddef troseddau bersonol yn aros yr un fath sef 3% yn unig o'r rhai a gyfwelwyd (o'i gymharu â'r cyfartaledd yn yr heddluoedd mwyaf tebyg i ni o 5%) ac roedd y rhai a oedd yn ofni y byddent yn dioddef troseddau yn y cartref wedi gostwng o 11% i 10% o'i gymharu â chyfartaledd o 15% yn yr heddluoedd mwyaf tebyg i ni.

Cofnodwyd 50 yn llai o troseddau treisgar yn 2006/07 nag a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol ac unwaith eto, mae hyn yn is na'r cyfartaledd. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi cydnabod bod y ffigwr hwn yn parhau i fod yn rhy uchel ac o ganlyniad, aeth ati i flaenoriaethu troseddau treisgar ar gyfer 2007/08. Gwnaethpwyd llawer iawn o waith yn y maes hwn, gan gynnwys cynllun Bihafio neu Cewch eich Banio (B.O.B.B.), y byddaf yn adrodd amdano yn nes ymlaen, a'r defnydd rhagweithiol o hysbysiadau cosb am anrhefn er mwyn delio â thrais ar lefel isel ar ein strydoedd. Byddaf yn rhoi diweddariad i chi am y cynnydd a sicrhawyd yn fy adroddiad blynyddol ar gyfer 2007/08.

Roedd cyfanswm y troseddau caffael, sy'n cynnwys yr holl droseddau dwyn, lladrata ac ati, i fyny ychydig ers y flwyddyn flaenorol, ond mae'n parhau i fod ar raddfa sy'n is na hanner y cyfartaledd yn yr heddluoedd mwyaf tebyg i ni.

Yn ogystal â gostwng lefelau troseddu, mae'n hanfodol ein bod yn parhau i ddatrys cymaint o'r troseddau a gofnodir ag y bo modd. Nid yn unig y mae hyn yn ddull ataliol, ond mae'n tawelu meddyliau hefyd bod unrhyw un sy'n troseddu yn ardal Dyfed-Powys lawer yn fwy tebygol o gael eu dal nag y byddent mewn unrhyw le arall yn y wlad hon.

Un o fesurau targed allweddol y llywodraeth yw sicrhau bod 1.25 miliwn o droseddau yn cael eu dwyn gerbron llys ar draws Cymru a Lloegr erbyn mis Ebrill 2008. Mae'r heddlu hwn wedi gwneud cyfraniad sylweddol at hyn, wrth i gyfran y troseddau a gafodd eu dwyn gerbron llys godi o 44% i 45% y llynedd. Yn yr un modd, gwelwyd y raddfa ddatrys sancsiwn yn codi o 40% i 42%. Ystyr datrysiad sancsiwn yw bod troseddwr wedi cael ei gyhuddo, wedi cael ei wysio i'r llys, wedi cael rhybudd (pan gyfaddefir y drosedd), wedi cael llys yn ystyried troseddau neu wedi cael rhybudd ffurfiol am feddu ar ganabis.

Adnoddau ac Effeithlonrwydd

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae cyfran yr arian ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus sy'n cael ei sicrhau trwy gyfrwng taliadau treth y cyngor, wedi codi. Mae'r Heddlu a'r Awdurdod yn ymwybodol iawn o hyn ac maent wedi ceisio cadw unrhyw gynnydd ym mhraesept treth y cyngor mor isel ag y bo modd, gan gofio'r pwysau y mae hyn yn ei roi ar y bobl sy'n byw yn ardal ein heddlu ac sydd ar incwm sefydlog.

Gan gofio hyn, rydym wedi canolbwyntio ar wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd gennym ar hyn o bryd trwy ostwng nifer yr heddweision sy'n gweithio yn ein Pencadlys a defnyddio dulliau gweithredu arloesol er mwyn bod yn fwy amlwg yn eich cymunedau lleol. Mae'r dulliau gweithredu hyn wedi cynnwys defnyddio rhagor o swyddfeydd symudol yr heddlu a'n partneriaeth gyda'r Swyddfeydd Post er mwyn darparu rhai o wasanaethau'r heddlu mewn 11 o swyddfeydd post ar draws Powys, Ceredigion ac, yn ddiweddar, Sir Benfro.

Yn ogystal, mae'r Heddlu wedi ceisio sicrhau arbedion effeithlonrwydd pryd bynnag y bo modd ac mae'n falch gennyf adrodd bod yr heddlu, yn ystod 2006/07, wedi sicrhau arbedion ariannol ac arbedion nad ydynt yn rhai ariannol o oddeutu 6.1%, sef dros ddwywaith y targed o 3% a bennwyd gan y llywodraeth yn gyffredinol.

Mae'r Heddlu a'r Awdurdod wedi buddsoddi'n sylweddol yn ein darpariaeth Iechyd Galwedigaethol dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n ymddangos bod hyn yn sicrhau canlyniadau. Gwelwyd ffigurau salwch ymhlith heddweision yn gostwng o 4.5% i 4% y llynedd, ac er y gwelwyd ffigurau salwch ymhlith staff yr heddlu yn codi fymryn, roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i gynnydd mewn swyddi hanfodol o ran staff yr heddlu.

Bwriad yr heddlu yw ceisio manteisio'n llawn ar yr amser y bydd ein heddweision yn ei dreulio yn cyflawni dyletswyddau rheng flaen, ond fel y mae adroddiadau cenedlaethol olynol wedi awgrymu, mae hyn yn sialens o ystyried cyfanswm y fiwrocratiaeth genedlaethol y mae'n rhaid i heddweision a staff ddelio â hi o ddydd i ddydd. Mae'n siomedig bod canran yr amser a dreuliwyd gan heddweision yn cyflawni dyletswyddau rheng flaen wedi gostwng ychydig i 62.2% y llynedd, ond yn ystod 2007/08, rydym yn bwriadu peilota rhaglen i ddarparu data symudol. Bydd hyn yn caniatáu i heddweision droi at systemau cyfrifiadurol yr heddlu wrth iddynt gyflawni gweithgareddau rheng flaen, heb iddynt orfod dychwelyd i'r orsaf, ac fe ddylai olygu bod rhagor o amser yn cael ei dreulio yn sicrhau presenoldeb amlwg yn ein cymunedau.

Er mwyn bod yn weithlu sy'n wirioneddol effeithiol a chynrychioliadol, rhaid i ni geisio annog rhagor o fenywod a phobl o'r gymuned ddu ac ethnig leiafrifol i ymuno â'r heddlu ac i symud ymlaen i'r rolau uwch. Mae'n dda gweld bod cyfran yr heddweision benywaidd ar draws yr heddlu yn parhau i godi, gyda nifer cynyddol yn dechrau ymgymryd â swyddi rheoli uwch yn y sefydliad. Yn yr un modd, trwy gyfrwng ymdrechion cadarnhaol ein hadran Adnoddau Dynol, mae rhagor o bobl o'r gymuned ddu ac ethnig leiafrifol yn cael eu denu i ymuno â'r heddlu. Rhaid i hyn barhau dros y blynyddoedd nesaf er mwyn sicrhau y gall ein heddlu barhau i feithrin ymddiriedaeth a hyder pawb yr ydym yn eu gwasanaethu.

Troseddau Difrifol a Diogelu'r Cyhoedd

Diolch byth, mae troseddau difrifol yn brin iawn yn ardal Heddlu Dyfed-Powys. Er hyn, rhaid i ni gael staff wedi'u hyfforddi a'r strwythurau priodol, ar y cyd â heddluoedd eraill weithiau, er mwyn delio ag achosion o'r fath pan fyddant yn digwydd. Er enghraifft, bu'n rhaid i'n huned yn Sir Benfro ddelio â dwy lofruddiaeth dros gyfnod o bedwar mis y llynedd, gan wneud hynny yn y ffordd fwyaf broffesiynol.

Un o'r mesurau a ddefnyddir gan y llywodraeth i asesu perfformiad yn y maes hwn yw lefel y troseddau sy'n peryglu bywyd a throseddau â drylliau. Y llynedd, gwelwyd y rhain yn gostwng o 0.38 digwyddiad fesul 1,000 o'r boblogaeth (191 at ei gilydd) i 0.29 digwyddiad (neu 145 troseddau). Mae'r ffigwr hwn yn cyd-fynd â'r cyfartaledd ar gyfer yr heddluoedd mwyaf tebyg i ni, ond mae'n rhaid i mi bwysleisio bod troseddau â drylliau yn hynod o brin a phan fyddant yn digwydd, maent yn ymwneud ag arfau tanio ffug, drylliau BB ac ati fel arfer.

Gwerth ariannol y gorchmynion atafaelu a fforffedu arian yn erbyn troseddwyr a gollfarnwyd yn ystod y flwyddyn oedd £253,013, gostyngiad sylweddol ers y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, gosodwyd targed uchelgeisiol yn hyn o beth ar gyfer 2007/08, a'n nod yw manteisio'n llawn ar ein pwerau i gymryd yr elw a ddaw yn sgil troseddau, o ddwylo'r rhai sy'n cyflawni'r troseddau.

Un o'r meysydd perfformio mwyaf heriol i'r heddlu hwn o ystyried ei rwydwaith ffyrdd a'i natur wledig yw ceisio gostwng nifer y damweiniau ffordd. Cynhaliwyd ymgyrchoedd gorfodi ac addysgu unedig trwy gydol 2006/07, ond mae'n siomedig nodi bod nifer y damweiniau a arweiniodd at farwolaethau neu anafiadau difrifol wedi codi o 381 i 427. Mae hwn yn un maes perfformio na all yr heddlu gael llawer o ddylanwad arno, ond byddwn yn parhau i weithio gyda heddluoedd cyfagos a phartneriaid er mwyn ceisio gostwng nifer y bobl sy'n cael eu lladd neu eu hanafu ar ein ffyrdd.

Bodlonrwydd a Thegwch

Mae pwysigrwydd bodlonrwydd cwsmeriaid fel ffordd o fesur effeithiolrwydd yr heddlu wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, gyda'r ymdrech i weithredu plismona sy'n canolbwyntio ar y dinesydd ar draws Cymru a Lloegr.

Dros y blynyddoedd diwethaf, bu'n rhaid i ni ymgynghori gyda dioddefwyr troseddau a'r rhai a ddioddefodd ddamweiniau ffordd, ynghyd â dioddefwyr digwyddiadau hiliol er mwyn gweld sut yr oeddent yn teimlo yr oeddem wedi delio gyda nhw. Mae hyn yn ystyried y profiad cyfan o ddelio gyda'r heddlu, o ba mor hawdd ydoedd i gysylltu â ni yn y lle cyntaf, i ba mor dda oedd y trefniadau er mwyn sicrhau eu bod yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am eu hachos, a'r gwasanaeth cyffredinol a ddarparwyd.

Y llynedd, gwelwyd y canran o ran bodlonrwydd gyda pha mor hawdd yr oedd hi i gysylltu â ni, yn parhau yr un fath, sef 91%, yn unol â'r cyfartaledd yn yr heddluoedd mwyaf tebyg i ni, ac roedd y gyfran a oedd yn fodlon gyda'r camau gweithredu a gymrwyd gan y staff, 4% yn uwch na'r ffigwr cyfartalog.

74% oedd canran y bobl a oedd yn fodlon â'r ffordd y cawsant wybod y diweddaraf o ran unrhyw gynnydd gyda'u trosedd neu eu digwyddiad, sef o'r lefelau uchaf yng Nghymru a Lloegr. Gwelwyd y bodlonrwydd gyda thriniaeth y staff yn aros yr un fath sef 91% a bodlonrwydd cyffredinol gyda'r gwasanaeth a ddarparwyd o 83%, a oedd 2% yn uwch na'r cyfartaledd yn yr heddluoedd mwyaf tebyg i ni. Gwelwyd y bodlonrwydd gyda'r ffordd yr ydym yn delio gyda digwyddiadau hiliol yn gostwng o 91% i 81% ond dylid bod yn ofalus gyda'r ffigurau hyn gan bod nifer y digwyddiadau dan sylw yn hynod o isel, felly gall y lefelau bodlonrwydd fod yn anwadal iawn. Er hyn, mae ein perfformiad o ran y mesur hwn yn uwch na'r cyfartaledd yn yr heddluoedd mwyaf tebyg i ni.

Rydym yn awyddus i sicrhau ein bod yn darparu'r un lefelau uchel o wasanaeth i bob rhan o'n cymuned. Yn hyn o beth, mae'n bleser nodi bod y lefelau bodlonrwydd yn y cymunedau gwyn a'r cymunedau du ac ethnig lleiafrifol yn weddol debyg.

Un o'r pwerau pwysicaf, ond dadleuol yn aml, sydd ar gael i'm heddweision yw'r pŵer i stopio a chwilio. Ein nod bob amser yw defnyddio'r pŵer hwn mewn ffordd deg a chymesur er mwyn delio â throseddau. Yn ystod 2006/07, 16% oedd cyfran yr achosion stopio a chwilio a arweiniodd at arést ymhlith y boblogaeth wen, a gwelwyd y ffigwr yn codi i 25% ymhlith pobl o'n cymunedau du ac ethnig lleiafrifol (BME). Fel y nodwyd yn flaenorol, fodd bynnag, rhaid ystyried yr amrywiaeth bach hwn yng nghyd-destun y niferoedd bach iawn o achosion o stopio a chwilio a gynhelir ymhlith aelodau o'n poblogaeth BME.

Blaenoriaethau Lleol

Ar gyfer 2006/07, bu'n rhaid i awdurdodau heddlu osod targedau penodol ar gyfer y blaenoriaethau a osodwyd ganddynt ar gyfer yr heddlu ar ôl ymgynghori gyda'r cyhoedd. Penderfynwyd canolbwyntio ar dri maes sef cyffuriau Dosbarth A, troseddau treisgar (gan gynnwys trais ar yr aelwyd) ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Yn ystod y flwyddyn, gwelwyd nifer y troseddwyr a gyhuddwyd o gyflawni troseddau masnachu cyffuriau dosbarth A yn codi o 78 i 82, a gwelwyd nifer y troseddau cyffuriau dosbarth A a arweiniodd at ddatrysiad yn codi o 56 i 62. Rydym yn cydnabod y niwed y gall cyffuriau ei achosi mewn cymunedau ar draws ardal yr heddlu ac o'r herwydd, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y maes pwysig hwn o ran troseddoldeb.

Mae troseddau treisgar yn rhywbeth sy'n peri pryder ymhlith sawl rhan o'n cymdeithas a gellir dadlau bod y ffordd y cânt eu portreadu yn y cyfryngau yn gallu cael effaith yn hyn o beth. Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gweld ein graddfa ddatrys ar gyfer troseddau treisgar yn codi o 55% i 60%, gan ddangos na fydd ymddygiad o'r fath yn cael ei oddef. Mae'n galonogol gweld hefyd bod nifer yr achosion o gam-drin yn y cartref a ddigwyddodd eilwaith wedi gostwng yn sylweddol o 856 i 744 y llynedd. Mae'r heddlu hwn wedi cymryd safiad rhagweithiol iawn o ran yr holl achosion cam-drin yn y cartref, gan gydnabod y cysylltiadau a amlygwyd rhwng y rhain ac achosion treisgar mwy difrifol ac, mewn achosion mwy eithafol, llofruddiaeth.

Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol olygu nifer o bethau i nifer o bobl, ond sut bynnag y caiff ei gategoreiddio, mae'n amharu ar ansawdd bywyd gormod o bobl ar draws Cymru a Lloegr. Y llynedd, gwelwyd lefelau difrod troseddol yn codi ychydig o 7,587 digwyddiad a riportiwyd, i 7,707. Yn yr un modd, gwelwyd nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd yn codi o 25,621 i 29,530. Fodd bynnag, byddwn yn pwysleisio bod y cynnydd ymddangosiadol hwn o ganlyniad yn bennaf i gyflwyniad llawn y Safon Cenedlaethol ar gyfer cofnodi Digwyddiadau (NSIR) yn yr heddlu. Mae hwn yn rhoi darlun llawn a chywir i ni o'r holl ddigwyddiadau a riportiwyd i'r heddlu, a bydd yn ein cynorthwyo i ddefnyddio ein hadnoddau yn fwy effeithiol, yn enwedig trwy ein timau Plismona Bro.

Yr Arolwg Troseddu Prydeinig yw hoff fecanwaith y llywodraeth er mwyn asesu bodlonrwydd gyda gwasanaethau'r heddlu a pherfformiad yn gyffredinol. Gan ddefnyddio hwn, gwelwyd cyfran y bobl a oedd o'r farn ein bod wedi gwneud gwaith da neu ragorol yn aros yr un fath sef 55%, o'i gymharu â chyfartaledd o 53% yn yr heddluoedd mwyaf tebyg i ni. Gwelwyd cynnydd bach o ran Ofn Troseddu (ond mae'n parhau i fod yn is na'r cyfartaledd yn yr heddluoedd mwyaf tebyg i ni), ac o ran tybiaethau pobl o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ardal yr heddlu. Gwelwyd tybiaethau ynghylch gweithgarwch gwerthu cyffuriau yn lleol yn codi hefyd, ac maent ychydig yn uwch na'r cyfartaledd yn yr heddluoedd mwyaf tebyg i ni. Mae hyn yn rhywbeth y byddaf yn delio ag ef ar lefel ymarferol yn ystod 2007/08 trwy weithio mewn partneriaeth gydag uwch heddweision ac Awdurdod yr Heddlu.

Ymchwiliadau a Digwyddiadau Nodedig

Mae nifer o bobl yn dychmygu bod byw a gweithio mewn ardal lle y mae'r lefel droseddu yn isel, fel ardal heddlu Dyfed-Powys, yn golygu bod ein heddlu yn delio gyda llawer yn llai o ddigwyddiadau na heddluoedd mewn rhannau eraill o Gymru a Lloegr. Er bod hyn yn wir mewn nifer o achosion, mae'n rhaid i'm heddweision a'm staff ddelio â rhai achosion sensitif ac amlwg, a rhai achosion sy'n cael sylw yn y cyfryngau cenedlaethol.

Isod, amlinellir rhai o'r digwyddiadau mwyaf arwyddocaol y bu'n rhaid i rai o'm staff ddelio â nhw yn ystod blwyddyn ariannol 2006/07.

Ebrill 2006 – marwolaeth drasig merch 10 oed mewn damwain ganŵio ar Afon Gwy ym Mhowys

Mehefin 2006 – galwyd heddweision i Aberystwyth ar ôl cael adroddiadau bod dyn yn taflu arian i ffwrdd yn ddiwahân yn un o strydoedd y dref

Gorffennaf 2006 – bu farw dyn ifanc trwy foddi yn Llanfair-ym-Muallt yn ystod wythnos y Sioe Frenhinol

Awst 2006 – ymosodiad difrifol yn Devon Drive ym Mhenfro yn datblygu i fod yn ymchwiliad i lofruddiaeth ar ôl i'r dioddefwr farw o ganlyniad i'w anafiadau

Medi 2006 – un o gŵn yr heddlu, 'Bryn', yn cael ei ladd ar ôl i heddweision gael eu galw i ddigwyddiad ar fferm yn Nhalacharn. Wedi hyn, rhoddwyd gwobrau cenedlaethol i'r heddweision dan sylw am eu dewrder wrth ddelio â'r sefyllfa

Tachwedd 2006 – marwolaeth pedair merch yn eu harddegau mewn damwain ffordd yn Llangynidr yn ne Powys

Tachwedd 2006 – lansiwyd ymchwiliad mawr ar ôl achos ymddangosiadol o sbeicio diodydd mewn tafarn yn Hwlffordd

Tachwedd 2006 – yr Heddlu yn gorfod delio â'i achos cyntaf o rywun yn ceisio lladrata arian wrth iddo gael ei gludo mewn fan diogelwch yn dilyn ymosodiad yn siop Co-op yn Crosshands, Sir Gaerfyrddin

Rhagfyr 2006 – lansiwyd ymchwiliad i lofruddiaeth ar ôl i filwr gael ei drywanu y tu allan i glwb nos yn Hwlffordd

Rhagfyr 2006 –gwarchae yn datblygu yn Llangeitho, Ceredigion ar ôl anghydfod rhwng dyn a swyddogion y cyngor. Cyn i'r digwyddiad ddod i ben, difrodwyd ceir yr heddlu a gwnaethpwyd bygythiadau y byddai heddweision yn cael eu lladd

Ionawr 2007 – galwyd ar heddweision i ymchwilio i ymosodiad hynod o ddifrifol yn Rhydaman

Chwefror 2007 – Bu heddweision yn delio gyda phrotestwyr amgylcheddol ar safle LNG yn Aberdaugleddau.

O'r detholiad bach hwn o ddigwyddiadau, mae'n amlwg bod yn rhaid i'm staff ddelio â digwyddiadau cymhleth ac amrywiol ar draws ein pedwar rhanbarth tiriogaethol yn rheolaidd.

Anrhydeddu'r Heddweision Dewraf yng Nghymru

Anrhydeddwyd chwe heddwas o Heddlu Dyfed-Powys yn ystod 12fed seremoni flynyddol Gwobrau Dewrder yr Heddlu a gynhaliwyd yn Llundain.

Enwebwyd y chwech, Siarsiant Lyn Evans a'r Cwnstabliaid Ian Davies, Adam Hearne, Andy Edwards, Mike Calas a Simon Williams yn dilyn eu gweithredoedd yn ystod digwyddiad ar fferm yn Sir Gaerfyrddin yn ôl ym mis Medi 2006.

Galwyd yr heddweision i Fferm Longridge yn Nhalacharn i ddal dyn a oedd wedi dymchwelyd dau o gerbydau'r heddlu ac a oedd wedi gyrru tractor gyda phigyn bêls wrtho, tuag at heddweision. Roedd un o gŵn yr heddlu, Bryn, wedi mynd i'r safle gyda'r heddweision.

I ddechrau, aeth yr heddweision ati i ddiffodd y tractor er mwyn atal y dyn rhag ei defnyddio. Daeth allan o'r parlwr godro ac roedd yn ymddangos i'r heddweision fel pe bai'n cario ffon. Ceisiodd yr heddweision ei herio ond ymatebodd y dyn mewn ffordd ymosodol ac nid oedd yn cydweithredu gyda nhw.

Penderfynodd PC Edwards, yr hyfforddwr cŵn, ryddhau Bryn er mwyn iddo gydio yn y dyn ac yna, rhedodd y dyn yn ôl i'r parlwr godro, ac aeth Bryn ar ei ôl. Yn ddiarwybod i'r heddweision, roedd y dyn wedi anafu Bryn trwy ei dorri gyda phladur mawr.

Pan aeth yr heddweision i mewn i'r parlwr, aeth y dyn ati i ymosod arnyn nhw hefyd, gan fethu PC Davies o drwch blewyn. Er gwaethaf ei anafiadau, a oedd yn rhai angheuol, llwyddodd Bryn i drechu'r dyn a'i ddal. Wedi hyn, cadwyd y dyn mewn uned ysbyty ddiogel am gyfnod amhenodol.

Soniodd y Prif Gwnstabl dros dro, Andy Edwards, am weithredoedd y ci a'r heddweision dan sylw gyda balchder, gan groesawu'r wobr a ddyfarnwyd iddynt.

"Rydw i wrth fy modd bod y chwe heddwas dewr yma wedi cael eu henwebu ar gyfer Gwobrau Dewrder 2007 gan eu bod wedi delio gydag unigolyn hynod o dreisgar a pheryglus mewn ffordd bwyllog a phroffesiynol. Roeddwn yn hynod o drist i glywed am farwolaeth Bryn, ond heb os nag oni bai, roedd ei weithredoedd ef wedi achub bywydau'r heddweision a oedd yn bresennol. Roedd y chwech ohonynt wedi dangos dewrder ymhell y tu hwnt i alwad dyletswydd ac mae pawb yn yr heddlu yn eithriadol o falch o'u hymdrechion," dywedodd.

Llwyddiant Ysgubol Ymarfer Gwrthderfysgaeth

Datganwyd bod yr ymarfer gwrthderfysgaeth mwyaf a gynhaliwyd yng Nghymru erioed, wedi bod yn llwyddiant ysgubol.

Cynhaliwyd Ymarfer Oystercatcher gan Heddlu Dyfed-Powys ar ran y pedwar heddlu yng Nghymru ym mis Hydref 2006, gan ddwyn ynghyd y gwasanaethau cyhoeddus ar draws de Cymru, yn ogystal â swyddogion llywodraethol yng Nghaerdydd ac yn Llundain.

Nod yr ymarfer, a gynhaliwyd dros dri diwrnod, oedd profi pa mor barod oedd yr holl wasanaethau am ymosodiadau terfysgol ar dir a môr. Seiliwyd y digwyddiad cyfan ar nifer o sefyllfaoedd a ddatblygwyd dros benwythnos ar draws ardal heddlu Dyfed-Powys a thu hwnt.

Bu'r ymarfer yn gyfnod anodd i'r holl heddweision a staff dan sylw, wrth iddynt wynebu cyfres o sialensiau parhaus gyda chyfranogiad gwleidyddion uwch yn San Steffan ac ym Mae Caerdydd. Fodd bynnag, fel yr esboniodd y Prif Gwnstabl Dros Dro, Andy Edwards, bu Oystercatcher yn llwyddiant ysgubol.

"Dros gyfnod o 12 mis, treuliwyd cryn dipyn o amser yn cynllunio ac yn paratoi ar gyfer yr ymarfer ar ôl dwyn tîm ymroddedig, a oedd yn cynnwys aelodau o nifer o heddluoedd, at ei gilydd i greu'r sefyllfaoedd a wynebwyd gennym fis Hydref diwethaf. Canmolwyd paratoadau'r heddlu ar gyfer yr ymarfer a'i gyflwyniad yn helaeth, a llwyddwyd i nodi nifer o bwyntiau lleol a chenedlaethol pwysig i'w dysgu."

"Mae tasg fawr fel hon yn dangos ein bod mor barod ag y gallwn fod am unrhyw weithgarwch terfysgol neu eithafol yng Nghymru," dywedodd.



Symud Ymlaen gyda Chydweithio rhwng Heddluoedd

Gwelwyd y cynigion i uno'r pedwar heddlu yng Nghymru yn dymchwel yn ystod 2006, ond aeth y Llywodraeth ati i annog heddluoedd ar draws y wlad i gydweithio'n agosach er mwyn cau unrhyw fylchau a nodwyd mewn 'gwasanaethau diogelu' megis plismona'r ffyrdd, ymateb i derfysgaeth a diogelu'r cyhoedd. Aeth Andy Edwards, y Prif Gwnstabl Dros Dro, ati i amlinellu rhywfaint o'r cynnydd a sicrhawyd.

"Gyda diflaniad y cynigion ynghylch uno, gwelwyd y pedwar heddlu yng Nghymru yn ymateb mewn ffordd gadarnhaol a sefydlwyd Tîm Canolog Cymru i ystyried y meysydd y byddai modd i ni gydweithio yn eu cylch. Seiliwyd y tîm hwnnw yn ein Gorsaf yn Aberhonddu i ddechrau, yna fe'i symudwyd i'n lleoliad yn Rhydaman."

"Penodwyd ein Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, Andrew Bevan, yn arweinydd strategol dros gydweithio ar draws Cymru ac mae'n bennaeth ar dîm bach sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob cwr o Gymru, yn heddweision ac yn staff yr heddlu, ynghyd â chynrychiolaeth gref o'n heddlu ni," esboniodd Mr. Edwards.

"Un o'r tasgau cyntaf a gyflawnwyd gan y tîm oedd pennu'r ffordd ymlaen er mwyn cydweithio ym mhob maes. Amlinellwyd hyn mewn dogfen o'r enw 'Agenda ar gyfer Newid', a gefnogwyd gan y pedwar Prif Gwnstabl a Chadeiryddion y pedwar Awdurdod Heddlu yng Nghymru."

Arweiniodd y ddogfen 'Agenda ar gyfer Newid' at sefydlu gweithgorau penodol i ystyried ystod o feysydd lle y byddai modd cydweithio fwy, o ran gweithgarwch plismona rheng flaen a swyddogaethau cymorth.

"Rydw i'n hyderus y bydd y rhaglen a ymgorfforwyd yn sicrhau arbedion effeithlonrwydd i bob heddlu yng Nghymru ac y bydd yn darparu gwasanaethau gwell a gwasanaethau mwy cyfunol yn ogystal," dywedodd Mr. Edwards.

Heddluoedd yn Gweithio mewn Partneriaeth gydag Ysgolion

Mae'r pedwar Heddlu yng Nghymru wedi ymestyn eu trefniadau partneriaeth trwy gyfrwng "Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan", gan gymeradwyo ymhellach eu hymrwymiad i weithio gyda phlant a phobl ifanc mewn ffordd sy'n fwy proffesiynol a chlir ei chanolbwynt. Mae gan ysgolion rôl hanfodol i'w gyflawni wrth i'r heddlu ymgysylltu gyda phlant a phobl ifanc, ac wrth eu perswadio i beidio troseddu ac ymddwyn mewn ffordd wrthgymdeithasol.

Mae'r rhaglen wedi bod yn llwyddiant ysgubol ar draws ardal gyfan Heddlu Dyfed-Powys yn ystod 2006/07, fel y mae'r Prif Gwnstabl Dros Dro, Andy Edwards, yn esbonio.

"Mae ein Swyddogion Cyswllt Ysgolion yn rhan o dîm cryf sy'n cynnwys dros saith deg o aelodau ac sy'n cynorthwyo athrawon ledled Cymru wrth iddynt gyflwyno addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh). Gwneir hyn trwy ddefnyddio cyfres o wersi sy'n rhychwantu cyfnodau allweddol un i bedwar (5-16 oed) gan godi ymwybyddiaeth am faterion cymunedol, a throseddau a'u canlyniadau."

"Ein nod yw darparu rhaglen atal/gostwng troseddu sy'n rhagweithiol ac a fydd, gydag amser, trwy gyfrwng addysg, yn lleihau lefelau trosedd ac anrhefn yn ein cymunedau ifanc. Trwy weithio i geisio dylanwadu ar agweddau ynghylch defnyddio sylweddau, ymddygiad gwrthgymdeithasol a diogelwch personol, mawr obeithiwn hyrwyddo dinasyddiaeth gadarnhaol yn yr ysgol a'r gymuned ehangach," dywedodd.

Yn aml, mae'r gwaith a wneir gan Swyddogion Cyswllt Ysgolion yn gysylltiedig â mentrau eraill sy'n cynnwys asiantaethau megis y Gwasanaeth Tân, y Gwasanaeth Ambiwlans, Gyrfa Cymru a phartneriaethau awdurdodau lleol.

Mae pob Heddwas Cyswllt Ysgolion yn meddu ar gymwysterau addysg perthnasol neu maent yn astudio am gymwysterau perthnasol o'r fath trwy ddilyn cyrsiau yn y cartref er mwyn gwella'r gwasanaeth a ddarparir gan yr Heddlu. Mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi sicrhau diplomau trwy Athrofa Abertawe er mwyn datblygu eu sgiliau. Mae datblygiadau pellach i'r rhaglen yn cael eu cynllunio, fel y nodwyd gan y Prif Gwnstabl Dros Dro.

"Ar hyn o bryd, cynhelir proses ym Mhowys i leoli heddweision mewn Ysgolion yn y Rhanbarth yn hytrach na gorsaf yr Heddlu, er mwyn ceisio gwella'r berthynas rhwng yr Heddlu a'r Ysgol. Yn ogystal, gwelwyd Heddweision Cyswllt Ysgolion yr Heddlu, Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid Powys, myfyrwyr Coleg Powys a Sialens Powys yn cwblhau taith 3 wythnos o gwmpas y 13 Ysgol Uwchradd yn y Sir yn ystod mis Mawrth 2007. Bu'r digwyddiad llwyddiannus hwn yn fodd i amlygu canlyniadau troseddu a'r ffordd y mae'n effeithio ar ddyfodol pobl ifanc, yn ogystal ag effaith ymddygiad troseddol ar y gymuned y maent yn byw ynddi."

Roedd y prosiect yn cynnwys drama o'r enw:

'I'm a criminal – get me out of here!' 'Dwi'n droseddwr – rhyddhewch fi!'

Seiliwyd y ddrama ar sioe deledu realiti 'Big Brother', gan ystyried y materion y mae pobl ifanc yn eu hwynebu mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc. Rhoddwyd y sefyllfa ganlynol i'r rhai a fu'n cymryd rhan.

"Dychmygwch eich bod yn droseddwr ifanc a'ch bod mewn Sefydliad Troseddwyr Ifanc ar hyn o bryd, ond mae gennych un siawns ar ôl i fod yn rhydd. I ennill eich rhyddid, rhaid i chi gymryd siawns yn y tŷ 'troseddau mawr'. Dyma'r dewis y mae'r pum 'carcharor' yn ei wynebu yn y ddrama. Mae cyfres o gemau a sefyllfaoedd wedi'u hail-greu am y bywydau y maent wedi'u gwastraffu yn ein hatgoffa sut y cawsant eu hanfon yno yn y lle cyntaf, ac maent oll yn ceisio cadw gafael ar eu cyfrinachau tywyll."

Rhoddwyd y cyfle i bob disgybl ymweld â 4 gweithdy ar ôl gweld y ddrama, a oedd yn cynnwys 'Hawliau a Chyfrifoldebau' a arweiniwyd gan yr Heddlu, 'Pobl Ifanc a Throseddu' gan y Gwasanaeth Troseddau Ieuenctid, 'Yn y Carchar' gan Sialens Powys ac yn olaf, ond nid y lleiaf, gweithdy rhyngweithiol 'Dan arweiniad cymheiriaid' rhwng y disgyblion a'r actorion eu hunain.

Rhoddwyd aroleuwr i bob disgybl ym Mlwyddyn 7 ac 8, a oedd yn cynnwys logo a theitl y prosiect, er mwyn eu hatgoffa o'r prosiect ac yn bwysicach, eu hatgoffa o ganlyniadau ymddygiad troseddol. Bydd DVD yn cael ei gynhyrchu cyn bo hir a bydd yn cael ei ddosbarthu i'r holl Asiantaethau Cyfiawnder Troseddol yn ardal Heddlu Dyfed Powys. Bydd copïau pellach o'r DVD ar gael i asiantaethau eraill, dim ond iddynt dalu'r gost o'i bostio.

"Gellir defnyddio'r DVD dylanwadol hwn fel adnodd yn ystod gwersi ABCh mewn Ysgolion Uwchradd, mewn swyddfeydd y Gwasanaethau Troseddau Ieuenctid, ac mewn sefydliadau eraill sy'n gweithio ym maes cyfiawnder troseddol a byddwn yn canmol y defnydd ohono," dywedodd y Prif Gwnstabl Dros Dro wrth gloi.

Cryfhau'r Frwydr yn Erbyn Troseddau Casineb

Mae cynllun i roi rhagor o gymorth i ddioddefwyr troseddau casineb yn hynod o boblogaidd.

Mae cynllun peilot, Heddwas Cymorth Troseddau Casineb Powys, yn darparu rhaglen gymorth strwythuredig i holl ddioddefwyr troseddau casineb yn y sir a'r bwriad yw ei gyflwyno ar draws ardal heddlu Dyfed-Powys. Mae'r Prif Gwnstabl Dros Dro, Andy Edwards, yn esbonio'r egwyddorion sy'n sail i'r prosiect arloesol hwn.

"Cyn gynted ag y bydd heddweision ym Mhowys yn cael adroddiad ynghylch trosedd casineb, penodir Heddwas Ymchwilio i'r achos. Bydd yr heddwas hwnnw yn cysylltu â Heddwas Cymorth Troseddau Casineb (HCSO) sydd ar gael, ac yn trefnu apwyntiad i'r heddwas hwnnw ymweld â'r dioddefwr cyn pen 48 awr."

Bydd gan yr HCSO yr holl wybodaeth sydd ar gael ynghylch y digwyddiad. Yna, bydd y swyddog ymchwilio yn gyfrifol am gynnal ymchwiliad proffesiynol i'r drosedd, gan ymdrechu i ddwyn y troseddwr o flaen ei well. Yna, bydd rôl hanfodol yr HCSO yn dod i'r amlwg, fel y dywedodd Mr. Edwards.

"Bydd yr HCSO yn trafod y dull mwyaf priodol o gael cyswllt gyda'r dioddefwr yn y dyfodol, gan ddelio â'u hanghenion cymorth ar unwaith. Fel arfer, bydd yn trefnu cyfeiriad i asiantaethau cymorth megis Cymorth i Ddioddefwyr ac yn trafod ail-ddioddef - a yw hyn yn debygol o ddigwydd a sut y gellir delio â hyn."

"Rôl hanfodol yr HCSO yw sicrhau cymorth i bob dioddefwr trosedd casineb, rhoi cyngor i'r Heddwas Ymchwilio a helpu staff yn lleol i ddatblygu cynlluniau er mwyn atal unrhyw ail-ddioddef yn y dyfodol."

Mae'r lefelau bodlonrwydd gyda'r cynllun peilot wedi bod yn hynod o uchel, gyda'r arolwg a gynhaliwyd yn fwyaf diweddar yn datgelu bod 100% o'r rhai a arolygwyd yn fodlon gydag ymateb yr heddlu ar y cyfan.

"Mae canlyniadau cychwynnol y gwaith hwn yn galonogol iawn ac os byddant yn parhau fel hyn, rydw i'n hyderus y bydd modd gweithredu'r cynllun yn llwyddiannus yn ein tri rhanbarth arall," dywedodd y Prif Gwnstabl Dros Dro.

Uned Gwasanaethau Cwsmeriaid yn Ceisio Gwella Ansawdd

Barnir bod cynllun peilot ym Mhowys i wella ansawdd y gwasanaeth a ddarparir i'r cyhoedd ac i flaenoriaethu amser heddweision mewn ffordd fwy effeithiol, wedi bod yn llwyddiannus.

Nod yr Uned Gwasanaethau Cwsmeriaid yn Aberhonddu yw darparu cyfleuster canolog pwrpasol i Bowys er mwyn delio gyda cheisiadau lefel isel am wasanaeth gan y cyhoedd yn lleol. Cylch gwaith yr uned beilot yw bod yn ganolfan gynghori sy'n gyfrifol am leihau'r amser y bydd heddweision yn ei dreulio yn delio gyda mân ddigwyddiadau.

Cychwynnodd y cynllun ar ei waith ym mis Chwefror 2007 ac mae'n mynd trwy gyfnod o werthuso trylwyr, ond mae'r canlyniadau cychwynnol yn awgrymu ei fod wedi bod yn llwyddiant ysgubol. Mae'r Prif Gwnstabl Dros Dro, Andy Edwards, o'r farn bod y syniad yn un da ac y byddai modd ei fabwysiadu ar draws Heddlu Dyfed-Powys cyn bo hir.

"Ceir nifer cymharol arwyddocaol o ddigwyddiadau lle na fyddai presenoldeb un o'n heddweision yn cyfrannu llawer tuag at yr ymchwiliad nac at farn y cyhoedd am ein gwasanaethau. Wrth blismona'r ardal reoli fwyaf yng Nghymru a Lloegr, nododd rheolwyr uwch ym Mhowys bod heddweision yn treulio cryn dipyn o amser yn teithio i fân ddigwyddiadau ac yn delio â nhw, pan nad oedd disgwyl iddynt eu mynychu hyd yn oed."

"Mae'r cynllun hwn yn rhoi gwasanaeth cynghori o ansawdd uchel i gwsmeriaid a phan fydd angen i heddwas fynychu, gellir trefnu bod hyn yn digwydd ar adeg addas a chyfleus i'r cwsmer dan sylw."

Mae uned Powys yn cynnwys pedwar aelod o staff, tri heddwas ac un aelod o staff yr heddlu ar hyn o bryd, ond dros y misoedd a'r blynyddoedd nesaf, rhagwelir y byddai modd i staff sifil, yn bennaf neu'n gyfan gwbl, weithio yn yr uned hon ac mewn unedau tebyg ar draws yr heddlu.

"Mae canlyniadau cychwynnol ein gwerthusiadau o beilot Powys wedi bod yn hynod o galonogol. Mae ymyrraeth ein tîm hynod o broffesiynol yn yr Uned Gwasanaeth Cwsmeriaid yn golygu bod oddeutu chwarter o amser ein heddweision yn cael ei ryddhau, amser sy'n cael ei dreulio bellach ar ymchwiliadau i droseddau mwy difrifol neu'n delio gyda materion plismona bro pwysig," dywedodd Mr. Edwards.

"Yn ogystal â hyn, mae'r adborth gan ein staff wedi bod yn gadarnhaol iawn ac yn bwysicach fyth, mae safbwyntiau aelodau'r cyhoedd ym Mhowys yn awgrymu eu bod yn fodlon gyda'r trefniadau newydd. Gan ddefnyddio data a sicrhawyd gennym cyn y peilot fel gwaelodlin, mae lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid wedi codi'n sylweddol ers sefydlu'r Uned Gwasanaeth Cwsmeriaid, gan awgrymu y croesawir proffesiynoldeb y tîm a'r amser ychwanegol sydd gan ein heddweision rheng flaen," ychwanegodd.

"Y peth pwysig am y cynllun hwn yw ei fod yn ymwneud â gwella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'r cyhoedd ac yn ei dro, eu hymddiriedaeth a'u hyder yn yr heddlu hwn. Mae ein gwaith ymchwil wedi dangos bod y ffordd y mae aelodau'r cyhoedd yn cysylltu â'r heddlu yn wahanol iawn i'r hyn yr arferai fod yn y gorffennol, wrth i ragor o geisiadau am wasanaethau gael eu trin dros y ffôn, a llai yn ymweld â chownteri blaen gorsafoedd heddlu. Byddwn yn cynnal gwerthusiad cadarn o'r peilot dros y misoedd nesaf, ond mae'r canlyniadau cychwynnol yn awgrymu y byddai modd ymgorffori'r ffordd newydd a chyffrous hon o weithio mewn ardaloedd eraill yn gyflym iawn," dywedodd Mr. Edwards wrth gloi.

‘Bihafiwch neu Cewch eich Banio’ – y neges i’r rhai sy’n mwynhau noson allan

Ban o un man – ban o bob man: dyma neges glir trwyddedigion ar draws ardal Dyfed-Powys, sy’n mynd i’r afael â throsedd ac anrhefn.

Dan gynllun Bihafiwch neu Cewch eich Banio (B.O.B.B.), bydd modd i banel o drwyddedigion wahardd unigolion o bob safle trwyddedig yn eu hardal ar ôl i’r unigolyn hwnnw gael ei enwebu gan un o’r trwyddedigion, ar ôl iddynt gael eu harestio yn yr ardal leol am gyflawni trosedd benodol neu ar ôl iddynt fod yn destun gorchymyn llys.

Mae’r cynllun partneriaeth hwn rhwng yr heddlu a thrwyddedigion yn arf allweddol wrth geisio delio â thrais sy’n gysylltiedig ag alcohol ac fel y nodwyd gan y Prif Gwnstabl Dros Dro, Andy Edwards, mae pob cynllun B.O.B.B. yn ymwneud yn benodol â’r ardal y mae’n gweithredu ynddi.

“Y syniad y tu ôl i gynllun B.O.B.B. yw ceisio delio â thrais ac anrhefn cyson mewn unrhyw ardal benodol, gan dargedu’r troseddwyr sy’n cyflawni troseddau dan Ddeddf Trwyddedu 2003. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae troseddau treisgar wedi bod yn un o’r prif feysydd blaenoriaeth a bennwyd gan yr Awdurdod ar gyfer yr Heddlu ar ôl iddo ymgynghori gydag aelodau’r cyhoedd, felly mae hon yn un ffordd o fynd ati i ddelio â’r broblem ar y cyd â’n partneriaid.”

Nod y cynllun yw gostwng troseddau, trais ac anrhefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy’n ymwneud ag alcohol mewn ardaloedd penodol, delio â’r defnydd o gyffuriau a’u cyflenwad mewn eiddo trwyddedig a mynd i’r afael ag yfed dan oed. Yn ogystal â chael cymorth yr heddlu, cefnogir y cynllun gan Gyngor Sir Powys.

“Nod y cynllun yw targedau troseddu mewn ardaloedd penodol ac nid yw wedi’i gynllunio i ddelio ag ymddygiad meddwol yn gyffredinol. Mae’n ymwneud â gostwng troseddu sy’n ymwneud ag alcohol, hyrwyddo diogelwch y cyhoedd a diogelu pobl ifanc rhag niwed,” ychwanegodd Mr. Edwards.

“Ein nod yw gostwng yr holl droseddau treisgar trwy gyfrwng cymysgedd o ddulliau gweithredu gan gynnwys patrolio amlwg mewn ardaloedd allweddol a rhaglenni addysg mewn partneriaeth ag eraill. Mae cynllun B.O.B.B. yn un arf sydd ar gael i ni ac yn arf yr ydym wedi gweithio arno gyda chydweithwyr yn y maes trwyddedu, ac mae’n cael effaith gadarnhaol ar draws ardal ein heddlu.”

Croeso Cynnes i Dimau Bro

Estynnwyd croeso cynnes i Dimau Plismona Bro ar draws ardal Heddlu Dyfed-Powys, ond mae Prif Gwnstabl Dros Dro yr Heddlu wedi rhoi rhybudd ynghylch y trefniadau i ariannu’r rhaglen yn y dyfodol.

Pan lansiwyd y fenter Plismona Bro gan y llywodraeth yn gyntaf, addawyd y byddai Heddlu Dyfed-Powys yn cael 157 o Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) fel rhan o gynllun cenedlaethol i recriwtio 24,000 ohonynt. Gostyngwyd y ffigwr hwn i 16,000 ar draws Cymru a Lloegr, gyda’r cyfanswm a neilltuwyd i ardal Dyfed-Powys yn cael ei ostwng i 74.

“Mae cael llai na hanner y cyfanswm o PCSOs a addawyd i chi yn wreiddiol yn golygu bod yn rhaid i chi gychwyn ar y gwaith cynllunio o’r newydd er mwyn gweld sut y gallwch sicrhau presenoldeb ystyrlon gan Dimau Bro mewn cymunedau ar draws yr ardal,” dywedodd y Prif Gwnstabl Dros Dro, Andy Edwards.

“Yn ddaearyddol, rydym yn gyfrifol am yr ardal blismona fwyaf yng Nghymru a Lloegr, felly roedd sicrhau presenoldeb amlwg a chysurlon mewn cymunedau o Lanfair Caereinion yn y gogledd, i Aberdaugleddau yn y de orllewin, wastad yn mynd i fod yn her.”

Mae’r gostyngiad yng nghyfanswm yr arian canolog yn golygu y bu’n rhaid i ni ystyried eto ein dull o strwythuro ein timau a’u lleoliadau. Yn hyn o beth, nid yw Plismona Bro yn ardal Dyfed-Powys yn mynd i fod yn debyg o gwbl i Blismona Bro yng Nghaerdydd, Bryste, Birmingham neu Lundain.”

“Fodd bynnag, rydw i’n cydnabod y manteision y gall Plismona Bro eu sicrhau ac mae cael presenoldeb amlwg yr heddlu ar y strydoedd yn cyfateb â’r hyn y mae’r cyhoedd yn dymuno ei gael gan eu heddlu lleol. Byddaf yn parhau i wneud popeth y gallaf ei wneud i ddarparu’r lefel honno o ran gwasanaeth, gan ddefnyddio’r adnoddau cyfyngedig sydd ar gael i mi, oherwydd heb unrhyw gynnydd yn lefelau praesept treth y cyngor sydd lawer yn uwch na chyfradd chwyddiant, ni fydd cynnydd o ran nifer y PCSOs a gyflogir gan ein heddlu.”

Erbyn mis Ebrill 2007, roedd Timau Bro yn gweithredu ar draws ardal yr Heddlu a sefydlwyd nifer fawr o ganolfanau cymunedol.

“Un o brif fanteision dull gweithredu Plismona Bro yw bod aelodau’r cyhoedd yn pennu’r blaenoriaethau plismona lleol ar gyfer y tîm hwnnw, trwy gynnal cyfarfodydd lleol gydag aelodau’r Tîm Bro, sy’n eu galluogi i ddelio â’r materion pwysicaf yn eu cymuned. Yna, caiff y camau a gymrir a’r cynnydd sy’n cael ei sicrhau, eu bwydo yn ôl i’r gymuned fis cyfan wedi hynny, a bydd penderfyniad yn cael ei wneud p’un ai y dylai’r blaenoriaethau aros yr un fath, neu a ddylid eu newid,” dywedodd y Prif Gwnstabl Dros Dro.

“Rydw i’n llwyr gefnogol o Blismona Bro, ond mae gennyf bryderon go iawn ynghylch y trefniadau ariannu yn y dyfodol. Y peth diwethaf yr ydw i’n dymuno ei wneud yw gwneud ymrwymiad i bobl ar draws ardal yr heddlu, a methu gwireddu’r ymrwymiad hwnnw. Rydw i wedi ymrwymo i sicrhau bod Plismona Bro yn gweithio a byddaf yn rhoi’r holl gymorth y gallaf ei roi i aelodau’r timau lleol, ond mae’n rhaid i mi sicrhau cydbwysedd rhwng hynny a’r holl alwadau eraill ar fy staff trwy gydol y flwyddyn,” nododd Mr. Edwards wrth gloi.

Data Perfformiad

Disgrifiad	Perfformiad Diweddaraf 2006/07	Perfformiad y Llynedd 2005/06	Targed 2007/08	Cyfartaledd Heddluoedd Cyffelyb
Thema Perfformiad - *Taclo Trosedd*				
Gan ddefnyddio’r Arolwg Prydeinig i Droseddu** - y risg o ddioddef trosedd bersonol	3%	3%	8%	5%
Gan ddefnyddio’r Arolwg Prydeinig i Droseddu ** - y risg o ddioddef trosedd yn erbyn y cartref	10%	11%	11%	15%
Troseddau treisgar fesul 1000 poblogaeth ac eithrio Troseddau Aflonyddu sy’n arwain at Hysbysiad Cosb Benodedig	15.1 (7641 trosedd)	15.2 (7691 trosedd)	TBC	15.3
Troseddau meddiangar fesul 1,000 poblogaeth	6.7 (3390 trosedd)	6.5 (3280 trosedd)	6.4 (3214 trosedd)	13.1
Troseddau a ddygwyd ger bron llys – Canran y troseddau hysbysadwy/cofnodedig a arweiniodd at euogfarn neu rybudd neu a gymerwyd i ystyriaeth gan y llys	45%	44%	45%	32%
* Datrysiadau Sancsiwn (lle cafodd person ei gyhuddo, ei wysio, ei rybuddio neu lle mae trosedd yn cael ei chymryd i ystyriaeth gan y llys, neu rybuddion ffurfiol am feddiant canabis)				
** Arolwg Prydeinig i Droseddu 2005/06 a gyhoeddwyd Gorffennaf 2005 ac Arolwg Prydeinig i Droseddu 2006/07 a gyhoeddwyd Gorffennaf 2006				
Thema Perfformiad - *Lleihau Troseddau a Diogelu’r Cyhoedd*				
Troseddau sy’n peryglu bywyd a throseddau â drylliau fesul 1,000 poblogaeth	0.29 (145 trosedd)	0.38 (191 trosedd)	0.28 (151 trosedd)	0.29
Gwerth gorchmynion fforffedu arian - Gwerth ariannol y gorchmynion atafaelu a fforffedu arian a weithredwyd gan yr Heddlu	£253,013	£427,862	£717,212	Dim ar gael
Nifer y bobl a fu farw neu a anafwyd yn ddifrifol o ganlyniad i wrthdrawiadau traffig y ffyrdd	427 gwrthdrawiad angheuol neu ddifrifol	381 gwrthdrawiad angheuol neu ddifrifol	404 gwrthdrawiad angheuol neu ddifrifol	485 gwrthdrawiad angheuol neu ddifrifol
Thema Perfformiad - *Bodlonrwydd a Thegwch*				
Bodlonrwydd dioddefwyr troseddau/gwrthdrawiadau traffig o ran cysylltu â’r heddlu	91%	91%	93%	91%
Bodlonrwydd dioddefwyr troseddau/gwrthdrawiadau traffig o ran ymateb yr heddlu	82%	83%	85%	78%
Bodlonrwydd dioddefwyr troseddau/gwrthdrawiadau traffig o ran cael eu hysbysu am ddatblygiadau yn eu hachos	74%	71%	75%	67%
Bodlonrwydd dioddefwyr troseddau/gwrthdrawiadau traffig o ran triniaeth staff yr heddlu ohonynt	91%	91%	93%	91%
Bodlonrwydd dioddefwyr troseddau/gwrthdrawiadau traffig o ran y gwasanaeth a gafwyd yn gyffredinol	83%	84%	86%	81%
Bodlonrwydd â’r gwasanaeth wrth ddelio â digwyddiadau hiliol	81%	91%	86%	77%
Cymharu bodlonrwydd defnyddwyr gwyn a defnyddwyr o leiafrifoedd ethnig gweladwy â’r gwasanaeth a ddarparwyd gan yr heddlu’n gyffredinol	Gwyn – 83% Ethnig – 79%	Gwyn – 84% Ethnig – 86%	Gwyn – 86% Ethnig – 86%	Gwyn – 81% Ethnig – 74%
% achosion stopio/chwilio PACE a arweiniodd at arést, yn ôl ethnigrwydd y rhai a stopiwyd	Gwyn – 16% Ethnig – 25%	Gwyn – 14% Ethnig – 16%	Gwyn – 20% Ethnig – 20%	N/A

Data Perfformiad

Disgrifiad	Perfformiad Diweddaraf 2006/07	Perfformiad y Llynedd 2005/06	Targed 2007/08	Cyfartaledd Heddluoedd Cyffelyb
Thema Perfformiad - *Blaenoriaethau Lleol*				
Nifer y troseddwyr a gyhuddwyd o farchnata cyffuriau Dosbarth A	82	78	Mesur Lleol	Dim ar gael
Nifer y troseddau cyffuriau Dosbarth A a arweiniodd at ddatrysiad*	65	56	Mesur Lleol	Dim ar gael
Nifer y digwyddiadau cam-drin yn y cartref lle'r oedd y dioddefydd wedi dioddef mwy nag unwaith yn ystod y 12 mis blaenorol	744	856	Mesur Lleol	Dim ar gael
% datrysiadau troseddau treisgar	60%	55%	Mesur Lleol	Dim ar gael
Nifer o ddigwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd	29,350	25,621	Mesur Lleol	Dim ar gael
Nifer y troseddau difrod troseddol***	7,707	7,587	Mesur Lleol	Dim ar gael
% y bobl sy'n credu bod eu heddlu lleol yn gwneud gwaith ardderchog neu waith da	55%	55%	56%	53%
Gan ddefnyddio'r Arolwg Prydeinig i Droseddu** – Ofn Troseddau	8%	5%	10%	9%
Gan ddefnyddio'r Arolwg Prydeinig i Droseddu** –Canfyddiad am ymddygiad gwrthgymdeithasol	10%	8%	12%	11%
Gan ddefnyddio'r Arolwg Prydeinig i Droseddu** – Canfyddiadau am ddefnydd/marchnata cyffuriau yn lleol	24%	23%	22%	21%

* Datrysiadau Sancsiwn (lle cafodd person ei gyhuddo, ei wysio, ei rybuddio neu lle mae trosedd yn cael ei chymryd i ystyriaeth gan y llys, neu rybuddion ffurfiol am feddiant canabis)
** Arolwg Prydeinig i Droseddu 2005/06 a gyhoeddwyd Gorffennaf 2006 ac Arolwg Prydeinig i Droseddu 2006/07 a gyhoeddwyd Gorffennaf 2007
*** Ac eithrio llosgi bwriadol a bygwth cyflawni difrod troseddol

Thema Perfformiad - *Adnoddau ac Effeithlonrwydd*				
Canran recriwtiaid (ethnig) yr Heddlu o'i gymharu â chanran y bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn y boblogaeth economaidd weithgar (PEW)	3.5% o recriwtiaid 1.0% o PEW	1.3% o recriwtiaid 1.0% o PEW	1%	1.4% o recriwtiaid 1.4% o PEW
Swyddogion heddlu benywaidd fel canran o'r holl swyddogion heddlu	22%	21%	22%	23%
Canran o amser swyddogion heddlu a dreulir ar ddyletswyddau rheng flaen	62.2%	63.3%	68.7	63.9%
Cyflawni targedau effeithlonrwydd ariannol ac anariannol	6.1%	NEWYDD	3.0%	Dim ar gael
Canran oriau a gollwyd oherwydd salwch - Swyddogion Heddlu	4.0%	4.5%	4.0%	3.6%
Canran oriau a gollwyd oherwydd salwch - Staff yr Heddlu	4.5%	4.3%	4.5%	4.0%

Monitro Cyflogaeth – Amrywiaeth mewn Cyflogaeth 2007 (fel ag yr oedd ar 31ain Mawrth 2007)

Categori	Manylion	Ethnigrwydd		Rhyw		Anabledd	
		Gwyn	ELID	Gwryw	Benyw	Anabl	Abl
Staff mewn swydd, gan gynnwys gwirfoddolwyr a staff ar gontract	HEDDWEISION - CYFANSWM POB RHENG	1203	9	927	285	39	1173
	Prif Swyddogion	3	0	3	0	0	3
	Prif Uwcharolygwyr	4	1	5	0	0	5
	Uwcharolygwyr	10	0	10	0	0	10
	Prif Arolygwyr	13	0	13	0	0	13
	Arolygwyr	63	0	54	9	2	61
	Sarjants	195	0	174	21	7	188
	Cwnstabliaid	915	8	668	255	30	893
	STAFF YR HEDDLU - CYFANSWM STAFF YR HEDDLU	797	3	321	479	30	770
	PCSOs	76	1	43	34	0	77
	Staff yr Heddlu	709	2	271	440	29	682
	Wardeniaid Traffig	12	0	7	5	1	11
	Cwnstabliaid Gwirfoddol	189	1	124	66	2	188
	Gwirfoddolwyr Sifil	125	0	63	62	0	125
Ymgeiswyr am Swyddi	Heddweision	777	12	528	261	21	786
Training Courses Attended	Heddweision	2607	12	2095	524	5	2614
	Staff yr Heddlu	506	2	201	307	13	495
	Cwnstabliaid Gwirfoddol	122	0	68	54	1	121
	Cyfanswm (3249)	3235	14	2364	885	19	3230
Ymgeiswyr am Ddyrchafiad (Bwrdd Dyrchafu)	Cwnstabl i Sarjant	33	0	30	3	1	32
	Sarjant i Arolygydd	0	0	0	0	0	0
	Arolygydd i Brif Arolygydd	0	0	0	0	0	0
	Uwcharolygydd ac uwch	0	0	0	0	0	0
Ymgeiswyr am Ddyrchafiad (Ymgeiswyr Llwyddiannus)	Cwnstabl i Sarjant	18	0	15	3	0	18
	Sarjant i Arolygydd	8	0	7	1	0	8
	Arolygydd i Brif Arolygydd	1	0	1	0	0	1
	Uwcharolygydd ac uwch	0	0	0	0	0	0
Ymgeiswyr am Ddyrchafiad (OSPRE Rhan I)	Cwnstabl i Sarjant	66	0	50	16	1	65
	Sarjant i Arolygydd	34	0	32	2	0	34
Ymgeiswyr am Ddyrchafiad (OSPRE Rhan II)	Arolygydd i Brif Arolygydd	28	0	22	6	0	28
	Uwcharolygydd ac uwch	16	0	15	1	0	16
Asesiadau PDR	Heddweision	1031	-	-	-	-	-
	Staff yr Heddlu	598	-	-	-	-	-
	Cyfanswm a dderbyniwyd	1629 (99.76%)		-	-	-	-
Achwynion	Heddweision	0	0	0	0	0	0
	Staff yr Heddlu	11	0	5	6	1	10
Achosion Disgyblu	Heddweision	4	0	3	1	0	0
	Staff yr Heddlu	0	0	0	0	0	0
Honiadau am aflonyddu rhywiol neu rywiaethol; aflonyddu homoffobig ac aflonyddu hiliol	Heddweision	16	0	13	3	0	0
	Staff yr Heddlu	1	0	1	0	0	0
Staff sydd wedi terfynu eu cyflogaeth gydag Awdurdod yr Heddlu	HEDDWEISION - CYFANSWM POB RHENG	48	0	43	5	6	42
	Prif Swyddogion	0	0	0	0	0	0
	Prif Uwcharolygwyr	0	0	0	0	0	0
	Uwcharolygwyr	1	0	1	0	0	1
	Prif Arolygwyr	1	0	1	0	0	1
	Arolygwyr	3	0	3	0	0	3
	Sarjants	11	0	11	0	2	9
	Cwnstabliaid	32	0	27	5	4	28
	STAFF YR HEDDLU - CYFANSWM STAFF YR HEDDLU	63	2	29	36	4	61
	PCSO	6	0	3	3	0	6
	Staff yr Heddlu	53	2	23	32	4	51
	Wardeniaid Traffig	4	0	3	1	0	4
	Cwnstabliaid Gwirfoddol	46	1	27	20	0	47
	Gwirfoddolwyr Sifil	34	0	22	12	0	34
Achosion tribiwnlys cyflogaeth		2	0	0	2	2	0

Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys Adroddiad Blynyddol 06/07

Adroddiad Blynyddol Awdurdod yr Heddlu ar gyfer 2006-07



Rhagair y Cadeirydd

Dyma'r ail flwyddyn a hefyd yr olaf o'm tymor fel Cadeirydd Awdurdod yr Heddlu a hoffwn ddweud ei bod wedi bod yn fraint ac yn anrhydedd i mi gael gwasanaethu Awdurdod yr Heddlu dros y ddwy flynedd cyffrous a diddorol hyn.

Ers clywed y newyddion fod y cynllun i uno'r heddluoedd Cymreig wedi cael ei ddiddymu, mae'r pedwar Awdurdod Heddlu a'r pedwar Heddlu Cymreig wedi bod yn canolbwyntio ar agenda ehangach i sicrhau cydweithrediad ar draws Cymru. Mae hwn yn gyfle nid yn unig i gydweithio â'n gilydd ond hefyd i weithio ar y cyd â'r awdurdodau lleol, cyrff cyhoeddus eraill a'r sector preifat, yn enwedig o ystyried y bwlch yn y gwasanaethau amddiffyn. Cefais fy nghalonogi'n fawr iawn gan y brwdfrydedd a ddangoswyd.

Fe fydd Awdurdodau'r Heddlu hefyd yn wynebu diffygion ariannol rhagamcanol ac mae'n hanfodol ein bod yn ceisio cydweithio i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib am y gost isaf bosib ar gyfer y cyhoedd. Mae hynny'n galw am weledigaeth a safon dda o gyfathrebu, rheolaeth, atebolrwydd ac arweinyddiaeth. Mae llawer o gydweithio eisoes yn digwydd ar draws Cymru a gellir adeiladu ar hwn a'i wella. Efallai bod y cynllun uno wedi mynd i ddifancoll ond nid felly y bwriad i gydweithio.

Wrth i mi ildio'r Gadair, hoffwn gofnodi fy ngwerthfawrogiad i staff swyddfa'r Awdurdod Heddlu sydd wedi gweithio'n ddiwyd iawn dros y cyfnod prysur hwn; fy nghyd aelodau, ddoe a heddiw, am eu cefnogaeth; y Prif Gwnstabl a'i staff am barhau i ddarparu gwasanaeth ardderchog, ond yn bennaf, diolchaf i bob un ohonoch chi am fynegi eich barn, dangos diddordeb a chefnogi'r Heddlu.

Y Cynghorydd Don Evans

Wynebau Newydd ar Awdurdod yr Heddlu

Mae gan Awdurdod yr Heddlu 19 aelod, gan gynnwys 10 o Awdurdodau Lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys, 6 Aelod Annibynnol o'r gymuned a 3 Ynad Lleyg.

Yn ystod 2006/07 gwelwyd nifer o newidiadau i aelodaeth yr Awdurdod. Cymerodd yr Athro Ian Roffe Y.H. o Geredigion drosodd oddi wrth Mr E T Morgan Y.H. o Aberhonddu a daeth Mrs Ann Williams o Sir Gaerfyrddin yn lle Miss Lindsey Jones o Bowys.

Daeth cyfnod gwasanaethu'r Aelod Annibynnol i ben ar y 31ain Mawrth 2007. Ffarweliwyd â Mrs Kara Bateman o Sir Benfro, yr Aelod Arweiniol ar faterion Amrywiaeth a Chydraddoldeb, a fu'n aelod o'r Awdurdod am bedair blynedd, yn ogystal â Mr John Antoniazzi a fu'n Aelod am 13 blynedd. Roedd Mr Antoniazzi yn gyn Gadeirydd ac fe'i cofiwn am ei gefnogaeth i'r gwaith cydweithredol rhwng y Gwasanaethau Brys a'i gyfraniad i Awdurdodau Heddluoedd Cymru. Ailbenodwyd Mr Alasdair Kenwright, Mr Peter Gray a Mrs Delyth Humfryes a phenodwyd dau aelod newydd sef Mrs Helen Thomas o Sir Gaerfyrddin a Dr Christopher Stock o Geredigion.

Mae gan bob aelod gyfoeth o sgiliau i'w cynnig i Awdurdod yr Heddlu.

MAE AWDURDOD HEDDLU DYFED-POWYS YN

- Annibynnol o Heddlu Dyfed Powys
- Darparu gwasanaeth heddlu effeithlon ac effeithiol
- Ymgynghori â'r cyhoedd a'u hysbysu ynglŷn â gwaith yr heddlu
- Cynnal safonau proffesiynol o fewn yr Heddlu
- Gosod y gyllideb flynyddol
- Monitro gwariant
- Monitro, adolygu a gwerthuso perfformiad yr Heddlu
- Hyrwyddo cydraddoldeb
- Gweithredu Cynllun Ymweliadau Dalfeydd Annibynnol
- Gyfrifol am benodi Prif Gwnstabl, Dirprwy Brif Gwnstabl a Phrif Gwnstabl Cynorthwyol

Am ragor o wybodaeth ewch i wefan Awdurdod yr Heddlu ar www.dyfedpowyspoliceauthority.co.uk

Golwg ar Berfformiad yr Heddlu yn 2006/07

Mae'r Awdurdod yn falch i nodi fod Heddlu Dyfed Powys yn parhau i fod yn un o'r heddluoedd sy'n perfformio orau yng Nghymru a Lloegr. Mewn arolwg perfformiad diweddar gan Arolygiaeth Heddluoedd Ei Mawrhydi, roedd pob maes a aseswyd yn dangos cysondeb neu welliant, a dyfarnwyd bod yr Heddlu wedi cyrraedd safon 'Ardderchog' mewn 3 maes, sef Taclo Trosedd, Diogelu Pobl Fregus ac Adnoddau ac Effeithlonrwydd.

Yn 2006/07 riportiwyd 0.4% yn llai o droseddau na'r flwyddyn flaenorol. Roedd y graddfeydd datrys yn uchel hefyd sy'n golygu fod mwy o bobl yn cael eu dwyn ger bron llys. Llwyddodd Heddlu Dyfed Powys i ddatrys 42% o droseddau yn 2006/07, sy'n arbennig o arwyddocaol o'i gymharu â'r heddluoedd sydd fwyaf tebyg i ni, a oedd, ar gyfartaledd, wedi datrys 30.8% o droseddau yn ystod yr un cyfnod. Mae Dyfed Powys felly yn parhau i fod yn un o'r ardaloedd mwyaf diogel i fyw, gweithio ac i ymweld â hi ar draws Cymru a Lloegr.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am fonitro, adolygu a gwerthuso perfformiad yr Heddlu. Gwneir hyn trwy gyfrwng adroddiadau i'r Awdurdod ac yn benodol y Pwyllgor Rheoli Perfformiad a Chraffu. Mae aelodau o'r pwyllgor hwn sydd wedi cael hyfforddiant mewn technegau rheoli perfformiad yn craffu ar waith yr Heddlu trwy archwilio a dadansoddi'r adroddiadau hyn. Bydd yr Awdurdod yn parhau i gyflawni'r rôl hon i sicrhau ein bod yn darparu Gwasanaeth Heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer y cymunedau a wasanaethir gan Heddlu Dyfed-Powys.

Materion Ariannol

Mae'r Awdurdod yn parhau i weithredu strategaeth ariannol ofalus sy'n pwysleisio'r angen am fuddsoddi mewn plismona rheng flaen, ac mae'r mwyafrif o swyddogion heddlu yn cyflawni dyletswyddau gweithrediadol. Diolch i reolaeth ariannol gadarn a mesurau effeithlonrwydd arloesol, mae'r Heddlu wedi cyrraedd arbedion effeithlonrwydd o 3%, sef y targed a bennwyd gan y Llywodraeth ar gyfer y flwyddyn. Mae'n bleser nodi bod y gwariant terfynol ar gyfer 2006/07 yn gyson â chyfanswm y gyllideb wreiddiol.

Ers nifer o flynyddoedd, mae'r Awdurdod wedi mynegi pryder am nad yw'r arian a geir gan y Llywodraeth yn ddigonol i gwrdd â chostau chwyddiant a'r pwysau mawr eraill ar gyllidebau'r Heddlu megis datblygiadau ym meysydd fforensig, TG a thechnoleg.

Gwelodd 2006/07 ddatblygiadau o ran y fenter Plismona Bro gan gynnwys Grant gan y Llywodraeth i ariannu Swyddogion Cefnogi Cymunedol yr Heddlu (PCSOs).

Aelodau Awdurdod yr Heddlu

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN

Cynghorydd W.J.W. Evans
Tyrynys, Llanddarog, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA32 8BL

01267 275384 (C)
e-bost: wjwevans@carmarthenshire.gov.uk

Cynghorydd W.G. Hopkins
46 Parc Cleviston, Llangennech, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA14 9UP

01554 820249 (C)
e-bost: WGHopkins@sirgar.gov.uk

Cynghorydd D A Tucker
18 Heol Trostre Isaf, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 2DY

01554 777070 (C)
07989 602236 (S)
e-bost: DATucker@carmarthenshire.gov.uk

CYNGOR SIR CEREDIGION

Cynghorydd J.D.R. Jones M.B.E.
Afallon, Dolfelen, Llanilar, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4PW

01974 241328 (C)
e-bost: rowlandj@ceredigion.gov.uk

Cynghorydd T.H. Lewis
Mount Pleasant, Ferwig, Aberteifi, Ceredigion, SA43 1QJ

01239 612015 (C)
e-bost: haydnl@ceredigion.gov.uk

CYNGOR SIR PENFRO

Cynghorydd J T Davies
Cwm Betws, Eglwyswrw, Crymych, Sir Benfro, SA41 3PL

01437 776231 (G)
01239 891556 (C)
07977 239352 (S)
e-bost: leader@pembrokeshire.gov.uk
john.Cwmbetws@virgin.net

Cynghorydd D.M. Evans
Highways, Clarbeston Road, Hwlffordd, Sir Benfro, SA63 4XB

01437 731300 (C)
07891 786969 (S)
e-bost: donglendon@aol.com

Cynghorydd A W Wilcox
25 Owen Street, Pennar, Doc Penfro, Sir Benfro, SA72 6SL

01646 621942 (C)
01437 764551(G)
e-bost: tony.wilcox@talktalk.net

CYNGOR SIR POWYS

Cynghorydd R.G. Brown
Preswylfa, Haughton, Llandrinio, Llanymynech, Powys, SY22 6SH

07789 748135 (S)
01691 83070 (C)
e-bost: cllrgbro@powys.gov.uk
cllr.graham.brown@powys.gov.uk

Cynghorydd K F Tampin
56 Holcombe Drive, Llandrindod, Powys, LD1 6DN

01597 823263 (C)
07734 946076 (S)
e-bost: Cllr.keith.tampin@powys.gov.uk

AELODAU ANNIBYNNOL

Mr. P.J. Gray
Little Cefn Farm, Hyssington, Yr Ystog, Sir Drefaldwyn, Powys, SY15 6EQ

01588 620603 (C)
e-bost: gray@littlecefn.freeserve.co.uk

Mrs. D.A. Humfryes
Lerwen, Rhydargaeau, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA33 6BL

01267 253951 (C)
e-bost: delythhumfryes@clara.co.uk

Mr. A.M.S. Kenwright
Pendle, Maesllan, Llambed, Ceredigion, SA48 8JZ

01570 493456 (C)
07811 004-829 (S)
e-bost: dak@pandy.u-net.com
alasdairkenwright@hotmail.co.uk

Dr. C.R. Stock
Blwch Post 99, Llangynnwr, Caerfyrddin, SA31 2PF

01267 226-440 (G)
e-bost: police.authority@dyfed-powys.pnn.police.uk

Mrs. H.M. Thomas
16 Maes-yr-Ysgol, Peniel, Caerfyrddin, Sir Gaerfyrddin, SA32 7BT

01267 235824 (C)
07811 194213 (S)
e-bost: police.authority@dyfed-powys.pnn.police.uk

Mrs. A. Williams,
Westville, Pontiets, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA15 5TF

01269 860776 (C)
07879 881705 (S)
e-bost: ann@jdgw.co.uk

AELODAU SY'N YNADON

Mr. J.K. Howell Y.H.
Penlan Fawr, Felindre, Llandysul, SA44 5JF

01559 370555 (C)
e-bost: ken.howell@dyfedpowyspoliceauthority.co.uk

Athro I.M. Roffe Y.H.
Greenlands, Clarach, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3DT

01570 423532 (G)
01970 820537 (C)
07773 450523 (S)
e-bost: i.roffe@lamp.ac.uk
i.roffe@btinternet.com

Mr. S. Vipond Y.H.
Station Cottage, Dolau, Llandrindod, LD1 5TG

01597 851451 (C)
01597 826020 (G)
Dydd Mawrth a Dydd Iau (a.m.)
01497 821371
Dydd Mawrth, Dydd Iau a Dydd Gwener (p.m.)

e-bost: svipond@beeb.net

Cynllun Ymweliadau Dalfeydd Dyfed-Powys

Pwrpas Cynllun Ymweliadau Dalfeydd Annibynnol Heddlu Dyfed Powys yw galluogi aelodau'r cynllun i ymweld â dalfeydd mewn gorsafoedd heddlu yn ddirybudd er mwyn sicrhau bod:

- Pobl a gedwir yn y dalfeydd, gan gynnwys y rheiny sydd heb gael eu cyhuddo, yn ymwybodol o'u hawliau cyfreithiol a'u hawliau eraill;
- Pobl a gedwir yn y ddalfa yn cael eu trin yn gywir ac yn deg gan y swyddogion y dônt i gysylltiad â nhw yn ystod y broses arestio;
- Yr amodau dan ba rai y cedwir pobl yn y ddalfa yn foddhaol.

Mae'r cynllun yn hybu gwell dealltwriaeth a hyder y cyhoedd yn y trefniadau ar gyfer cadw a diogelu lles pobl yn y ddalfa. Yn ogystal, mae'n cynnig haenen ychwanegol o gyd-ddiogelwch i'r bobl a gedwir yn y ddalfa a'r swyddogion heddlu trwy ddarparu gwasanaeth annibynnol i graffu ar y modd y mae pobl yn cael eu trin yn y ddalfa a'r amodau ar gyfer eu cadw.

Pwy yw'r Ymwelwyr Dalfeydd a Beth Maent yn ei Wneud?

Aelodau o'r gymuned leol, rhwng 18 a 75 oed, yw'r Ymwelwyr Dalfeydd. Maent yn bobl ddiduedd ac annibynnol ac nid oes ganddynt unrhyw gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol. Eu rôl yw edrych, gwrando ac adrodd yn ôl am eu darganfyddiadau. Caiff y wybodaeth yn yr adroddiad ei dadansoddi gan nodi'r prif feysydd lle mae angen gweithredu ac unrhyw faterion sydd yn galw am sylw brys.

Darperir hyfforddiant ar eu cyfer gan Awdurdod yr Heddlu ar y cyd â Chymdeithas yr Ymwelwyr Dalfeydd Annibynnol ac ad-delir eu costau. Fel arfer, ni ddisgwylir i Ymwelwyr Dalfeydd wneud mwy nag un ymweliad y mis.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn bod yn Ymwelydd Dalfeydd Annibynnol a hoffech gael ffurflen gais, cysylltwch â swyddfa Awdurdod yr Heddlu ar 01267 226344 neu trwy'r e-bost julie.evans@dyfed-powys.pnn.police.uk

Cynllun Ymwelwyr Lleyg i Sicrhau Lles Anifeilliaid

Cafodd y Cynllun Ymwelwyr Lleyg i Sicrhau Lles Anifeiliaid ei gyflwyno gyntaf fel peilot yn Uned Rheoli Sylfaenol Powys yn ôl yn 2002, ac ers hynny fe'i ehangwyd ar draws ardal yr Heddlu. O dan y Cynllun mae aelodau o'r gymuned leol, ynghyd â swyddogion o'r RSPCA, yr Ymddiriedolaeth Cŵn a'r Awdurdodau Lleol yn ymweld ag anifeiliaid sy'n gweithio i'r heddlu ac yn adrodd yn ôl am eu lles er mwyn sicrhau gwell dealltwriaeth a hyder yn y materion hyn. Maent hefyd yn craffu ar y modd y mae'r heddlu'n hyfforddi eu cŵn er mwyn sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir yn drugarog, moesegol ac yn atebol i'r cyhoedd.

Mae pob Triniwr Cŵn yn cael o leiaf un ymweliad gan Ymwelydd Lleyg pob blwyddyn.

O ganlyniad i adroddiadau ac argymhellion a wnaed gan yr Ymwelwyr Lleyg i Sicrhau Lles Anifeiliaid, mae Awdurdod yr Heddlu yn buddsoddi mewn cenel a swyddfeydd newydd i Adran y Cŵn ac mae system aerdymheru yn cael ei gosod ym mhob cerbyd newydd a brynir yn awr.

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn Ymwelydd Lleyg i Sicrhau Lles Anifeiliaid a dysgu mwy am waith Adran Cŵn Heddlu Dyfed-Powys, cysylltwch ag Awdurdod yr Heddlu ar 01267 226440.

Rydym am glywed eich barn chi am yr Heddlu yn eich ardal chi

Hoffai'r Awdurdod wybod beth yn eich barn chi yw'r blaenoriaethau ar gyfer plismona eich ardal leol chi. Defnyddiwch y ffurflen isod i fynegi eich barn ynglŷn â pha faterion y dylai'r heddlu yn eich ardal chi fod yn mynd i'r afael â nhw.

Anfonwch eich sylwadau at: Prif Weithredwr yr Awdurdod,
[Gwasanaeth Ateb Busnes - Rhif Trwydded SS1046], Blwch Post 99,
Llangynnwr, Sir Gaerfyrddin. SA31 2PF.
Ffôn: 01267 226440 / Ffacs: 01267 226448 neu
E-bost: police.authority@dyfed-powys.pnn.police.uk

Eich sylwadau chi : .....

.....

.....

.....

.....

.....

Nodwch ym mha ardal rydych chi'n byw: ☐ Sir Gaerfyrddin ☐ Ceredigion ☐ Sir Benfro ☐ Powys